

Y Casglwr

Pob Peth Printiedig

Rhif 42 Tanysgrifiad blynyddol i'r Ysgrifennydd £3 NADOLIG 1990

ARCHEB BANC

WRTH adolygu'r cylchgronau sy' tan eu hadain bodlonwyd Cyngor y Celfyddydau gyda chynnwys, safon a gwasanaeth Y Casglwr a phenderfynwyd ei gefnogi am y tair blynedd nesaf. Gwerthfawrogir cefnogaeth y Cyngor a'r grant sy'n gwneud Y Casglwr yn gyhoeddiad o fewn cyrraedd pawb. Mae'r diolch yr un mor fawr i'r darllenwyr, cyfranwyr a hysbysebwr, ac i'w gwneud yn bosibl i ddal ati ac i helpu'r rhai anghofus mae ffurflen archeb banc gyda'r rhifyn hwn. Dyma'r ffordd hwylus i chi dalu'r teirpant blynyddol — dyledus ar y cyntaf o Ionawr, cofiwch. Ac os oes smotyn coch ar gornel ucha'r dudalen yma yr ydych heb dalu am eleni chwaith. Felly, mewn tegwch — **PLŴS!**

D. TECWYN LLOYD braidd yn "amused" wrth gofio am y Canu i'r hen Gwîn dros ganrif yn ôl (with English and Welsh words)

Cwympa llawer llywydd,
Arfon byth ni orfydd,
Cyrff y gelyn wrth y cant
Orphwysant yn y ffosydd . . .

Am beth yn y byd yr oedd Ceiriog yn sôn?

Ym mis Awst, 1889, daeth yr hen Fictoria am dro i ddyffryn Edeimion ac aros ym mhlas y Pale, Llandderfel. Bu'n ymweld â'r Bala ac fe brynodd frethyn Cymreig yn siop Tryweryn; bu'n siopa hefyd yng Nghorwen, o leia' bu siop y Queen gynt yn anfon rhyw betheuach iddi o'r dre honno a hyd ganol y ganrif hon 'roedd y siop groser yng Nghorwen a'r siop frethynau yn y Bala yn arwisgo pais arfau'r goron uwchben eu ffenestri ac yn cyhoeddi 'Honi soit qui mal y pense' i bawb a fynnai oedi munud i edrych.

Fin nos, trefnwyd i ddiddanu'r hen wreigan yn y Pale trwy gael Côr Llandderfel a chôr telynu enwog John Roberts a'i feibion i ganu alawon Cymreig iddi. Trefnwyd 'Melodies of Wales (with English and Welsh Words)' i Soprano, Alto, Tenor a Bas gan gerddor amlwg y dydd, D. Emllyn Evans.

Trwy lwc, mae gennyf gopi argraffedig o'r casgliad o'm blaen y funud yma, copi a lofnodwyd gan y cerddor ei hun i Vincent Evans ar Awst 23, 1889. Tebyg mai'r noson honno yr oedd y côr i ganu o flaen yr hen Gwîn ac os aeth drwy ei holl repertoire cafodd yr hen wraig glywed ugain o alawon bywiog a Gwŷr Harlech i gloi'r noson.

A dyma lle down at Geiriog. Prin fod yr hen Vic yn dilyn y geiriau Cymraeg ond yr oedd ganddi drosiadau Saesneg Talhaiarn i fwrw golwg drostynt cyn cysgu y noson honno ac mae'r rheini mor ymladdgar bob tipyn â phenillion Ceiriog, a Gwŷr Harlech yn cloi gyda'r her 'Cambria wins the field'.

Nid yw geiriau'r Saesneg yn ffitio'r alaw agos mor rhwydd nac mor gerddorol-synhwyrol â'r

PRICE] [ONE SHILLING.

→ * ALAWON + CYMRU. * ←

MELODIES OF WALES

(With English and Welsh Words.)


AND ARRANGED

FOR SOPRANO, ALTO, TENOR, AND BASS,

BY

D. EMLYN EVANS.

As sung before Her Majesty, the Queen, by the Llandderfel Choir at Pale, Merioneth, August, 1889.



TREHERBERT (GLAM.)

PRINTED BY ISAAC JONES, STATIONERS' HALL, DUKE STREET.

geiriau Cymraeg, ond ni allai neb beidio â gweld mai sôn y maent am Gymry herfeiddiol yn ymosod ar ryw Saeson ac yn gyrru'r gweddill a oedd yn fyw ohonynt ar ffo.

Rhyw fath o El Alamein Gymreig yw'r frwydr dan sylw lle mae'r 'dauntless sons of Celtic sires' yn gwneud llanast dychrynllud o'r gormeswyr: 'Vengeance crowns the hate of ages' ac o'r diwedd:

Now the enemy is flying
Trampling on the dead and dying,
Victory aloft is crying,
Cambria wins the field.

Fu 'rïoed y fath sgrym:

With their lances flashing,
Warriors wild are crashing
Through the tyrants' serried ranks
Whilst onward they are dashing...

Chwarae plant oedd cyrch y Frigâd Ysgafn yn y Crimea wrth

beth fel hyn, a mân ymgyrchoedd oedd rhyfeloedd y Sic a'r Affgan, y Mahrattas a'r Siwlw ac ni allai holl ddrymiau tomtom y Matabele gystadlu â:

Wela goelcerth wen yn fflamio
A thafodau tân yn bloeddio
Ar i ddewrion ddod i daro
Unwaith eto'n un.

Fu rotsiwn beth:

Gan fanllefau'r tywysogion
Llais gelymion, trwt arfogion
A charlamiaid y marchogion
Craig ar graig a grŷn!

Ac eto, mi fu côr Llandderfel yn cyffroi pendist y Pale gyda'r gân a'r geiriau hyn; nid rhyw floeddio canu penllan ond datganu'n ddisgybledig frwd o flaen y Teyrn, y Fanon ei hun; hyrddio bygythion a herio'r hen elyn oesol reit o flaen disgynydd Hengist a hynny ar achlysur pryd

y disgwyliid yr ymgreinio arferoll!

Wedi'r cwbl, onid oedd dwy o siopau'r cylch yn mynd i gael pais arfau'r 'By appointment' a thrwy hynny wella eu cwsmeriaeth yn sylweddol? Yn 1889, 'roedd yr hen Gwîn yn ddeg a thrigain; nid oed i oddef yn ysgafn rhyw jarffio fel hyn gan y brodorion.

Tybed a droes hi at Henry Robertson ar ddiwedd y perfformiad a dweud 'we are not amused'? Tybed a gafodd hi beth dychryn wrth y fath ryfelgarwch? Mae'n drueni na wyddom yr ateb i'r cwestiynau hyn.

UN O'R nodweddion rhyfeddath sy'n perthyn i farddoniaeth Gymraeg y 19 ganrif yw fod tipyn ohono o tua diwedd y ganrif ymlaen i ddyddiau Eifion Wyn, yn swnio'n rhyfelgar a bygythiol tu hwnt.

Nid yw'n gwbl eglur bob amser, er hynny, pwy'n union yw'r gelyn nac ychwaith beth yw amcanion y brwydro. Weithiau, ceir cymysgwch fel yn y geiriau gan Dalhaiarn yr wyf newydd ddyfynnu ohonynt.

Gofynnir: 'Shall heart-rendering sounds of woe / Be heard where Conway's waters flow? / Or shall a rude and ruthless foe / A willing slave here find? O'r gorau, cyfeirio y mae at warchae castell Conwy yn amser Edward I.

Nes ymlaen, nodir mai un o gynghreiriaid y Cymry — ac nid Edward — yw 'Harlech! from thy frowning towers / Pour forth thy never failing pow'rs'. Ond buasai hyn yn amhosibl, nid Cymry ond yr Eingl-Normaniaid oedd yn dal Harlech.

Mae rhywbeth go fawr o'i le ar wybodaeth Tal o hanes yn y fan hyn.

Un arall o feirdd y brwydro papur ffynig hwn, yn Saesneg, yw Felicia Hemans a fu'n byw am amser byr yng nghastell ffug y Gwrych ger Abergele. Hi biau'r geiriau Saesneg sydd ar dôn 'Y

Parhad ar dudalen 2